TREF HYNAF CYMRU
CAERFYRDDIN
CARMARTHEN
OLDEST TOWN IN WALES

Cynnig ar gyfer Ardal Gwella Busnes (AGB) yng Nghaerfyrddin

DRAFFT TERFYNOL 7/1/19

Grŵp Llywio Datblygu AGB Caerfyrddin (Cynigydd AGB): **Tachwedd 2018**

Rhagair gan y Cadeirydd

Fel Cadeirydd grŵp llywio Ardal Gwella Busnes (AGB) Caerfyrddin, a rheolwr canolfan siopa yn y dref, rwyf wedi gweld llawer o newid dros y degawd diwethaf. Mae dirwasgiad hir, cystadleuaeth sylweddol gan y rhyngrwyd, Brexit, toriadau i gyllidebau'r Cyngor Sir a'r Cyngor Tref, cwtogi ar swyddi, a llawer i ansicrwydd arall oll yn effeithio ar fywiogrwydd Caerfyrddin, gan arwain at lai o ymwelwyr â'r dref, ac, yn sgil hynny, llai o wariant ym musnesau'r dref.

Ond mae gwytnwch yn perthyn i dref Caerfyrddin, ac rwyf o'r farn mai'r unig ffordd o gynnal ein henw da fel y lle gorau yng Ngorllewin Cymru i wneud busnes ac fel lle cofiadwy i ymweld ag ef, yw drwy gydweithio a chymryd rheolaeth fel busnesau, gan feddu ar weledigaeth glir o'r hyn sydd angen ei wneud.
Mae ceisiadau AGB llwyddiannus mewn trefi cyfagos wedi cael effaith sylweddol ar eu hamgylcheddau masnachu, felly does dim dewis gennym; pleidleisiwch o blaid AGB neu'r perygl yw y cawn ein gadael ymhell ar ei hôl hi.

Os gwnawn ni i gyd bleidleisio o blaid er mwyn gwireddu ein gweledigaeth, bydd gennym gronfa o £847,000 o leiaf ar gyfer y 5 mlynedd hyd nes y daw'r cynllun i ben, a hynny i fuddsoddi yn y dref er budd pawb. Rydym yn hyderus fod modd cynyddu'r swm hwn ymhellach byth drwy ddenu cyllid ychwanegol gan ffynonellau allanol eraill i'n galluogi i wneud mwy hyd yn oed.

Er mwyn gwireddu'r uchod, rydym angen i chi bleidleisio o blaid. Heb eich cefnogaeth bydd Caerfyrddin, ar y gorau, yn aros fel y mae ar hyn o bryd, ac, ar y gwaethaf, yn dirywio ymhellach a gwelir rhagor o unedau gwag a'n cymdogion yn cipio ein cyfran ni o'r farchnad.

Mae'n hynod bwysig fod busnesau'n cefnogi'r AGB. Mae'n rhaid inni gael lleisio'n barn am ddyfodol y dref. Dim ond drwy weithio gyda'n gilydd y gallwn wneud gwahaniaeth.

Ymunwch â mi a llawer o'n cyd-fusnesau drwy gefnogi'r cynllun hwn a phleidleisio o blaid AGB Caerfyrddin.

John Nash
Cadeirydd, Grŵp Llywio AGB Caerfyrddin

Cyflwyniad - AGB i Gaerfyrddin

Beth yw Ardal Gwella Busnes (AGB)?

Corff a arweinir ac a gyllidir gan fusnesau yw AGB ac fe gaiff ei ffurfio i wella ardal fasnachol. Mae'n ardal benodol, yn yr achos hwn canol tref Caerfyrddin, lle mae busnesau'n gweithio gyda'i gilydd ac yn buddsoddi mewn gwasanaethau, prosiectau a digwyddiadau arbennig y cytunwyd arnynt.

Penderfynwyd ar faes gorchwyl AGB Caerfyrddin eisoes, a bydd yn cael ei reoli gennych chi, sef y busnesau fydd yn rhan o'r AGB. Wrth i chi reoli'r AGB, gennych chi y mae'r rôl allweddol o ran penderfynu pa brosiectau a mentrau aiff ymlaen i fod yn rhan o dymor 5 mlynedd yr AGB.

Mae'r AGB yn cael ei hariannu gan ardoll o 1.5%, sydd wedi'i seilio ar eich gwerth ardrethol, ac mae'r cytundeb i sefydlu AGB yn cael ei wneud ar sail pleidlais drwy'r post, er bod modd datblygu ffrydiau refeniw eraill pan fydd yr AGB yn weithredol.

Ni all AGB gymryd lle gwasanaethau sector cyhoeddus craidd ac mae'n rhaid bod modd i'r rhai sy'n talu'r ardoll elwa yn sgil eu buddsoddiad.

Bydd AGB Caerfyrddin yn cael ei harwain gan Fwrdd yr AGB sy'n cynnwys gwirfoddolwyr sy'n cynrychioli'r sefydliadau a'r sectorau busnes gwahanol yn y dref.

Ym mis Mawrth 2017, roedd tîm yr AGB wedi ymgynghori â chi i gael eich barn am AGB i Gaerfyrddin. Hefyd cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori galw heibio ym mis Tachwedd 2017. Ar sail yr ymgynghoriad, mae'r grŵp wedi llunio cynllun busnes pum mlynedd (y ddogfen hon) ar draws y pedwar prif faes gweithgarwch sy'n rhan o addewidion AGB Caerfyrddin. Mae'r cynllun hwn yn seiliedig ar yr hyn yr ydych chi'n credu y dylid ei wneud i wella amodau ar gyfer busnesau yng nghanol tref Caerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf.

Ers sefydlu AGB gyntaf y DU yn 2005, mae tua 270 o Ardaloedd Gwella Busnes bellach wedi'u ffurfio. Ceir deuddeg o Ardaloedd Gwella Busnes yng Nghymru ar hyn o bryd, ac maent yn cwmpasu ardaloedd yn Abertawe, Merthyr Tudful, Casnewydd, Bangor, Caernarfon, Bae Colwyn, Castell-nedd, Pen-y-bont ar Ogwr, Pontypridd, Aberystwyth, Caerdydd a Llanelli. Mae'n bryd i Gaerfyrddin ymuno â'r rhestr hir hon o'r Ardaloedd Gwella Busnes llwyddiannus sydd ar waith yng Nghymru a phob cwr o'r DU. Efallai mai'r hyn sy'n dangos llwyddiant y model AGB orau yw cyfradd y bleidlais o'i blaid: 85% adeg y tymor cyntaf, ac yn uwch byth adeg pleidleisiau adnewyddu. Hwn yw'r cyfle am newid. Cefnogwch AGB Caerfyrddin.

Ewch i'n gwefan: https://www.facebook.com/lovecarmarthen

Y bleidlais

Mae'n rhaid i chi bleidleisio er mwyn cael dweud eich dweud.

Gofynnir i fusnesau* cymwys yng nghanol tref Caerfyrddin bleidleisio ar dalu ardoll ychwanegol o 1.5% ar ardrethi busnes i gronfa a gaiff ei defnyddio ar gyfer gweithgareddau a mentrau i sicrhau bod canol y dref yn fwy bywiog a llwyddiannus yn economaidd. Dyma'r amser y mae angen i bob busnes a'r sector cyhoeddus ddod ynghyd i sicrhau bod canol y dref yn brysurach ac yn fwy deniadol.

Cefnogir y bleidlais o blaid gan Gyngor Sir Gaerfyrddin, sydd wedi gwneud ei ymrwymiad i AGB Caerfyrddin yn amlwg fel talwr ardrethi o bwys a thrwy gefnogi datblygiad a sefydliad yr AGB.

Bydd gan y busnesau berchnogaeth, yn ogystal â chyfrifoldeb, dros sicrhau bod yr arian yn

**Mae busnesau sydd â gwerth ardrethol o dan £6000 wedi'u heithrio, ond gallent ddewis gwneud cyfraniad gwirfoddol i ddod yn aelod o'r AGB. Bydd gostyngiad o 80% ar gyfer sefydliadau elusennol anfanwerthol.*

cael ei wario'n ddoeth, a bydd yr AGB yn cael ei goruchwylio gan ei Bwrdd a'i gwerthuso'n annibynnol. Bydd pob ceiniog yn cyfrif. Rydym yn gwybod fod Caerfyrddin yn dref wych lle mae llawer i'w wneud, ei weld, a'i brofi. Rydym hefyd yn gwybod fod llawer o bethau y mae angen eu gwella'n barhaus, yn enwedig yng nghanol y dref. Gall AGB Caerfyrddin sicrhau bod hyn yn digwydd.

Pam datblygu AGB i Gaerfyrddin?

Diben yr AGB yw cydweithredu a chydweithio er mwyn gwella. Bydd yr AGB o fudd i'r gymuned leol yn ei chyfanrwydd drwy greu twf economaidd yn yr ardal, creu ymdeimlad cadarnhaol o le a gwella ansawdd bywyd. Yn fwy penodol, bydd o fudd i'r gymuned fusnes drwy gynyddu nifer yr ymwelwyr a gwariant defnyddwyr, lleihau costau, galluogi busnesau i benderfynu a dylanwadu ar yr hyn maent ei eisiau ar gyfer yr ardal, rhoi llais iddynt, a chreu amgylchedd mwy deniadol i gyflogwyr a'u gweithwyr.

Mae gan Gaerfyrddin lawer i'w gynnig fel cyrchfan ac iddo enw da am ei siopau a'i adloniant, a hynny yn ystod y dydd a chyda'r nos. Mae'r modd y mae'r modern yn cyfuno â threftadaeth gref yn arbennig yma. Mae'r arlwy siopa'n gyfuniad o ganolfannau siopa modern â nifer o adwerthwyr cenedlaethol, bwytai, a sinema fawr ar yr un llaw, ac ar y llaw arall cedwir presenoldeb cryf gan adwerthwyr annibynnol, gan gynnwys marchnad dan do sy'n hyrwyddo cynnyrch lleol. Mae'r dref hefyd yn cynnwys ystod o fusnesau proffesiynol sy'n darparu amrywiaeth o gynnyrch a gwasanaethau pwysig.

Fel y dref farchnad hynaf yng Nghymru, mae Caerfyrddin yn cynnig hanes a diwylliant arbennig, drwy ei chysylltiadau â Myrddin a'i threftadaeth Rufeinig. Mae'r dref yn gartref i Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, sy'n llawn trysorau megis y darn olaf o'r Hen Dderwen, esgyrn mamothiaid, aur Rhufeinig ac arteffactau o'r Aifft. Mae ei diwylliant a'i threftadaeth yn golygu bod Caerfyrddin mewn sefyllfa ddelfrydol i ddenu ymwelwyr lleol i'w chanolfan adwerthu, ac i ddenu ymwelwyr o bell ac agos. Bydd AGB Caerfyrddin yn helpu canol y dref i adeiladu ar y cryfderau hyn a thrwy hynny sicrhau dyfodol mwy llewyrchus.

Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i wneud ein gweledigaeth yn bosibl, a thrwy AGB Caerfyrddin dros y pum mlynedd nesaf, bydd canol y dref yn cael buddsoddiad o oddeutu £847,000.

Dychmygwch yr hyn y gallai ein dyfodol fod:

Erbyn 2024 bydd canol tref Caerfyrddin wedi mynd o nerth i nerth, bydd nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu, a bydd ein busnesau'n ffynnu.

Os cawn bleidlais o blaid, byddwn yn gwella canol y dref ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'ch busnes.

Yr hyn y bydd yr AGB yn ei wneud

Ym mis Mawrth 2017, ymgynghorwyd â 190 o fusnesau yng Nghaerfyrddin ynghylch canol y dref a'r rhagolygon ar gyfer AGB. Cafwyd ail gyfle i gynnig sylwadau a gwneud awgrymiadau drwy sesiwn galw heibio ym mis Tachwedd 2017. Ceisiodd yr ymgynghoriad weld a fyddai busnesau'n cefnogi cyflwyno AGB ac roedd yr ymateb yn gadarnhaol dros ben. Lleisiwyd y prif bryderon a'r blaenoriaethau gan y busnesau yn ystod yr ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys ymchwilio i'r posibiliadau o ran lleihau problemau parcio, a chynyddu nifer yr ymwelwyr drwy ddigwyddiadau, hyrwyddo a gwell arwyddion.

Felly, mae'r nodau, yr addewidion a'r syniadau prosiect canlynol wedi'u datblygu i fynd i'r afael â'r materion hynny ac i wneud gwelliannau sy'n diwallu'r anghenion a nodwyd gan y gymuned fusnes.

Nod yr AGB

Ein nod yw sicrhau bod Caerfyrddin yn dref fywiog a llewyrchus lle mae busnesau'n ffynnu a lle mae nifer yr ymwelwyr yn cynyddu drwy:

- **Greu partneriaethau lleol cryf sy'n cyflawni pethau ac yn rhoi llais i fusnesau'r AGB;**
- **Gwella'r cyfleoedd economaidd a'r amgylchedd masnachu ar gyfer busnesau'r AGB; a**
- **Cynyddu faint o gwsmeriaid sy'n cael eu denu i'r AGB, am faint o amser maen nhw'n oedi, faint maen nhw'n gwario yn ogystal â'u teyrngarwch i'r busnesau.**

Mae'r AGB yn gwneud pedwar addewid o ran cyflawni'r uchod:

1. Gwneud busnesau'n fwy proffidiol:
Helpu busnesau yr AGB i ddod hyd yn oed yn fwy llwyddiannus drwy eu gwneud yn fwy proffidiol. Bydd yr AGB yn helpu busnesau i leihau eu costau net drwy, er enghraifft, raglen bwrcasu gyfunol / canolog, a bydd yn rhoi ystod o gynlluniau a mentrau ar waith i wella perfformiad busnes, a thrwy hynny, gynyddu trosiant a phroffidioldeb.

2. Gwella proffil y dref:
Hyrwyddo Caerfyrddin fel lle gwych i ymweld ag ef o ran treftadaeth a diwylliant, adloniant, siopa a dysgu. Mae hwn yn gyfle gwych i'r gymuned fusnes ddylanwadu'n uniongyrchol ar sut y mae'r dref yn cael ei hyrwyddo. Bydd yr AGB hefyd yn sicrhau bod y rheiny sy'n ymweld â chanol y dref ac yn treulio amser yno yn cael "croeso cynnes".

3. Gwella'r profiad parcio:
Bydd yr AGB yn ymdrechu i wella'r profiad parcio i staff a chwsmeriaid y busnesau fydd yn rhan o'r AGB, drwy leihau costau i'n staff a rhoi cymhelliant i gwsmeriaid ymweld yn amlach a gwario mwy.

4.Gwella golwg y dref:
Mae cydberthynas agos rhwng yr addewid hwn a'r lleill ac mae wedi'i anelu at yr un nod sef cynyddu nifer yr ymwelwyr a gwneud y dref yn fwy bywiog. Bydd yn gwneud y dref yn lle hyd yn oed gwell i fyw a gweithio ynddo, yn helpu i ysgogi mwy o ymwelwyr, ac yn cael busnesau i fuddsoddi yn y dref.

Mae'r AGB yn bwriadu canolbwyntio ar y pedwar maes gweithgarwch hyn. Fodd bynnag, bydd cyfran o'r gyllideb yn cael ei neilltuo'n benodol ar gyfer cefnogi prosiectau sy'n cael eu datblygu a'u darparu gan sefydliadau lleol eraill, ac sydd â'r un nodau ac amcanion â'r AGB.

Bydd Rheolwr AGB yn cael ei gyflogi, a hynny'n rhan-amser i ddechrau, er mwyn cyflawni gweithgareddau'r AGB. Rheolwr yr AGB fydd y pwynt cyswllt allweddol i aelod-fusnesau'r AGB. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus gymhelliant cryf a bydd digon o fentergarwch yn perthyn iddo/iddi. Yn ogystal, bydd yn meddu ar sgiliau o ran cysylltiadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol, a rheoli perthnasoedd.

Bydd yr AGB yn llunio cynllun gweithredu manwl ac iddo gerrig milltir a monitro chwarterol, ynghyd â gwerthusiad blynyddol o'r cynnydd tuag at ei dargedau. Wedi i'r AGB gael ei sefydlu, bydd y sawl sy'n aelod ohoni'n gallu dylanwadu ar yr hyn y bydd yr AGB yn canolbwyntio arno er mwyn darparu prosiectau o dan y themâu hyn sy'n diwallu orau anghenion newidiol canol y dref.



Addewid 1: Gwneud busnesau'n fwy proffidiol

Buddsoddiad AGB arfaethedig dros 5 mlynedd: o leiaf £200,000

Mae'r AGB yn cydnabod y gellid gwneud mwy drwy gydweithredu a dysgu rhagor er mwyn gwella proffidioldeb ein busnesau. Drwy weledigaeth gadarnhaol ar gyfer y dyfodol byddwn yn ymdrechu tuag at lwyddiant a rennir. O dan yr addewid hwn, bydd yr AGB yn darparu gwerth gwych am yr arian i'w aelodau drwy leihau costau net busnesau a chymryd camau er mwyn hybu rhagor o ymwelwyr a gwariant.

Bydd yr AGB yn...

Datblygu a darparu cynllun pwrcasu cyfunol a chanolog
Bydd gwasanaeth i reoli pwrcasu gwasanaethau casglu gwastraff ac ailgylchu yn gyfunol ac yn ganolog i aelodau'r AGB yn helpu i leihau costau busnes. Hefyd gallai'r cynllun hwn gynnwys cynnyrch a gwasanaethau allweddol eraill a nodwyd gan aelod-fusnesau'r AGB megis cyfleustodau a diogelwch. Gan weithredu fel corff cyfunol, bydd aelodau'r AGB yn elwa ar arbedion maint ac yn defnyddio eu grym prynu fel grŵp i leihau costau net megis casglu gwastraff blynyddol a biliau trydan, nwy a ffôn. Gall yr AGB gyd-drafod â darparwyr gwastraff masnach, ailgylchu a darparwyr eraill er mwyn ceisio lleihau costau'r contractau hyn, gan gynnal gwasanaeth o safon ac arbed amser i chi ar yr un pryd.

Ariannu hyfforddiant pwrpasol i'r aelod-fusnesau
Bydd yr AGB yn helpu i gynyddu trosiant a phroffidioldeb ein haelodau drwy ariannu'r hyfforddiant sydd o'r diddordeb/defnydd mwyaf i'n haelodau. Yn hytrach na phenderfynu ar ba fath o hyfforddiant dylid ei ariannu a'i ddarparu, bydd hwn yn wasanaeth pwrpasol dan arweiniad aelodau'r AGB, a fydd yn penderfynu beth sydd ei angen arnynt i wella eu busnes, boed yn hyfforddiant ynghylch gwerthiannau a gwasanaeth cwsmeriaid, marchnata a chyfryngau cwsmeriaid, iechyd a diogelwch, ymwybyddiaeth o droseddau, SIA ac ati.

Cyflawni Cynllun Siopwr Dirgel
Bydd yr AGB yn ariannu ac yn rheoli cynllun siopwr dirgel yn yr AGB, ac yn dilyn hynny bydd adborth a fydd yn galluogi busnesau i wella eu gwasanaeth os oes angen. Mae'r cynllun hwn wedi cael ei gyflawni'n llwyddiannus mewn Ardaloedd Gwella Busnes eraill fel Abertawe, gan alluogi busnesau i asesu eu gwasanaeth cwsmeriaid yn gyfrinachol a sicrhau ei fod mor effeithiol â phosibl. Fel yr amlinellwyd uchod, wedyn gellir ariannu hyfforddiant i alluogi busnesau i ymateb i ganfyddiadau'r broses siopwr dirgel.

Ymchwilio i'r potensial i gael Cynllun Cerdyn Teyrngarwch
Byddwn yn ymchwilio i gyflwyno cerdyn teyrngarwch i wobrwyo a rhoi cynigion arbennig i bobl leol a staff. Byddai hyn yn cynnwys amryw o gynigion i gymell pobl i wario eu harian yn lleol ac i helpu i sicrhau bod cwsmeriaid yn dychwelyd dro ar ôl tro. Fel rhan o'r fenter hon, byddem yn gweithio gyda'r Cyngor a'r Brifysgol, sydd eisoes yn cydweithio i ddatblygu cynllun teyrngarwch / talebau lleol ar gyfer myfyrwyr PCYDDS.

Addewid 2: Gwella proffil y dref

Buddsoddiad AGB arfaethedig dros 5 mlynedd: o leiaf £200,000

Mae hwn yn gyfle gwych i'r gymuned fusnes ddylanwadu'n uniongyrchol ar sut y gall yr adnoddau sydd ar gael i hyrwyddo Caerfyrddin a'i busnesau gael eu defnyddio orau er mwyn codi proffil y dref cymaint â phosibl. Gall yr AGB hefyd ariannu a chyflawni gweithgareddau penodol i hyrwyddo canol y dref a'i busnesau.

Bydd gweithgareddau o dan yr addewid hwn yn codi proffil y dref er mwyn denu rhagor o ymwelwyr, ac yn darparu llwyfan marchnata i godi proffil busnesau'n uniongyrchol.

Dyma un o'r negeseuon allweddol a roesoch inni yn yr arolwg ymgynghori â busnesau ym mis Mawrth 2017 a'r digwyddiad ym mis Tachwedd 2017.

Dywedsoch y dylai'r AGB anelu at gynyddu nifer yr ymwelwyr yn y dref drwy...

- gyfeirio ymwelwyr o amgylch y dref;
- gwneud mwy o ran marchnata a hyrwyddo digwyddiadau, yn ogystal â'r dref yn gyffredinol

Felly, bydd yr AGB yn...

Llobïo i ddylanwadu ar frandio ac arwyddion yng nghanol y dref a'u gwella

Bydd yr AGB yn creu grŵp lobïo pwerus i gynrychioli ei haelod-fusnesau mewn trafodaethau ynghylch brandio Caerfyrddin a'r arwyddion i'r dref ac oddi mewn iddi. I hyrwyddo'r gymuned fusnes yng Nghaerfyrddin, bydd yr AGB newydd yn ceisio cydgysylltu gweithgareddau marchnata er mwyn codi proffil Caerfyrddin yn lleol a thu hwnt drwy weithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol. Lle y bo'n bosibl, bydd yr AGB yn ceisio cefnogi ac ychwanegu gwerth at weithgareddau marchnata presennol, a darparu mentrau newydd drwy weithio gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol. Gallai hyn gynnwys creu ymgyrchoedd marchnata a fydd yn hyrwyddo'r cwbl oll sydd gan y dref i'w gynnig mewn modd cydlynol, gan gynnwys diwylliant, treftadaeth, hamdden, siopau annibynnol, a'r arlwy masnachol ehangach.

Mewn perthynas ag arwyddion, ymhlith y syniadau cychwynnol y mae lobïo i godi arwyddion mewn lleoedd strategol allweddol ar hyd y ffordd osgoi a'r prif ffyrdd i sicrhau bod pobl yn gwybod am ganol y dref ac yn gallu canfod eu ffordd yno'n hawdd. Bydd yr AGB hefyd yn gwella'r arwyddion sydd yn y dref, gan fod darparu arwyddion o safon, sydd wedi'u diweddaru, yn hollbwysig o ran denu pobl i'r lleoliad a'u helpu i ymchwilio i'r hyn sydd ar gael. Mae arwyddion a gwybodaeth yn effeithio ar ddefnydd pawb o'r dref. Bydd yr AGB yn adnewyddu ac yn gwella'r arwyddion a'r ddarpariaeth canfod y ffordd er mwyn sicrhau bod pobl yn gyfarwydd â'r dref ac yn gwybod ble mae pethau, boed yn lonydd lle mae siopau annibynnol, swyddfeydd, neu brif asedau'r dref o

Addewid 2: *parhad...*

Datblygu menter "Croeso Cynnes"
Bydd menter "Croeso Cynnes" yr AGB, sy'n gysylltiedig â'r cynllun siopwr dirgel fel a ddisgrifir yn yr addewid cyntaf, yn gwella ac yn hyrwyddo enw da'r dref fel man sy'n sicrhau profiad o safon i gwsmeriaid ac ymwelwyr. Mae Caerfyrddin yn dref groesawgar iawn eisoes a bydd y fenter hon yn ein galluogi i fod hyd yn oed yn fwy croesawgar.

O dan y fenter hon bydd yr AGB yn datblygu ac yn rheoli cynllun i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid ac i ymwelwyr, ynghyd â'r profiad a gynigir yn yr AGB, gan gynnwys mentora a phroses effeithiol o ran atgyfeirio cwsmeriaid. Bydd ein mentoriaid "Croeso Cynnes" yn ymweld ag aelodau'r AGB i roi cyngor a gwybodaeth i unrhyw fusnesau sy'n ceisio hynny, yn ogystal â chynghorion arfer gorau i gwsmeriaid.

Bydd y fenter hon hefyd yn cynnwys cynllun cwrdd-a-chyfarch lle byddwn yn ariannu ac yn rheoli 'Llysgenhadon Canol Tref'. Byddant yn gyfrifol am groesawu'r bobl i'r dref a gweithredu fel hyrwyddwyr twristiaeth.

Datblygu gwefan AGB â chyfeiriadur busnes lleol
Byddwn yn sefydlu gwefan i hyrwyddo canol tref Caerfyrddin ac aelod-fusnesau unigol o'r AGB, gan gynnwys micro-safleoedd ar gyfer busnesau unigol. Bydd yn cynnwys gwybodaeth am fusnesau lleol ac yn darparu cyfeiriadur ar gyfer siopau, cyfleusterau hamdden a gwasanaethau, cynigion a thalebau, hysbysfwrdd swyddi gwag, newyddion a rhestrau o ddigwyddiadau.

Bydd adran i'r aelodau, yn cynnwys hysbysfwrdd a fforwm i fusnesau'r AGB. Bydd yr adran i'r aelodau yn galluogi'r holl fusnesau i drafod a chodi materion, a bydd rheolwr yr AGB yn cadw golwg ar y fforwm, gan ymateb i unrhyw gwestiynau, awgrymiadau, a phroblemau. Ceisir sicrhau bod y wybodaeth ar wefan AGB yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol megis Facebook, Twitter ac Instagram.

Cefnogi digwyddiadau a gwyliau o safon
Bydd yr AGB yn cefnogi ac yn gwella'r digwyddiadau presennol ac yn mwyhau'r buddiannau ar gyfer canol y dref, yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu digwyddiadau newydd o safon mewn partneriaeth â grwpiau cymunedol lleol ac eraill. Nod hyn yw cynyddu nifer yr ymwelwyr â'r AGB yn y dydd a'r nos a thrwy gydol y flwyddyn. Bydd yn ymgysylltu â phreswylwyr ac ymwelwyr, bywiogi'r strydoedd ac annog pawb i dreulio amser yng nghanol y dref.

Bydd yr AGB yn ceisio marchnata'r digwyddiadau a'r gwyliau mewn modd mwy cydgysylltiedig, a byddant i gyd yn cael eu cynnwys a'u marchnata ar wefan AGB. Byddwn hefyd yn ystyried y posibilrwydd o brynu offer ac adnoddau y gallai trefnwyr digwyddiadau eu defnyddio.

Addewid 3: Gwella'r profiad parcio

Buddsoddiad AGB arfaethedig dros 5 mlynedd: o leiaf £40,000

Dangosodd yr arolwg ymgynghori â busnesau ym mis Mawrth 2017 yn glir y dylai lleihau problemau parcio yng nghanol y dref fod yn un o brif flaenoriaethau'r AGB. Mae'r profiad parcio a gaiff pobl yn hollbwysig o ran pa fath o argraff y mae'r dref yn ei chreu arnynt. Bydd yr AGB yn gweithio i wella'r profiad hwnnw yng Nghaerfyrddin drwy weithio gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a darparwyr parcio eraill i wasanaethu fel cyswllt â busnesau a chwsmeriaid. Mae llais cryf gan yr AGB o ran mynd i'r afael â'r pryderon hyn.

Bydd yr AGB yn...

Lobïo i wella'r profiad parcio yng nghanol y dref
Bydd yr AGB yn gweithredu fel grŵp lobïo sy'n cynrychioli busnesau'r AGB mewn trafodaethau ynghylch parcio ceir yng nghanol y dref. Byddwn yn edrych i weithio gyda darparwyr parcio i ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnig cymhellion a chynigion ar gyfer digwyddiadau, a hynny ar adegau allweddol o'r flwyddyn fasnachu ac ar adegau penodol o'r wythnos. Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid i ystyried datblygiadau megis dewisiadau talu drwy gerdyn. Bydd gan AGB Caerfyrddin Reolwr AGB amlwg a brwd a fydd yn gweithredu ar ran aelodau'r AGB ac yn gweithredu fel cyswllt canol y dref; rhywbeth fydd yn sicrhau bod anghenion parcio busnesau ac ymwelwyr yn cael eu diwallu.

Ystyried opsiynau ar gyfer ad-daliad parcio neu gynllun teyrngarwch
Bydd yr AGB yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflwyno cynllun parcio a fyddai'n annog ymwelwyr i ddychwelyd yn amlach. Un o'r syniadau cychwynnol yw datblygu cynllun a fyddai'n gwobrwyo teyrngarwch drwy gyflwyno tocynnau parcio lle gellir cael yr arian yn ôl drwy wario mewn siop sy'n aelod o'r AGB.

Cyd-drafod disgownt i staff aelodau'r AGB
Byddai'r AGB yn ceisio datblygu Tocynnau Parcio i'r Staff a'r Busnesau lle byddai staff yn cael disgownt wrth ddefnyddio meysydd parcio canol y dref. O dan y cynllun hwn, byddai pob busnes sy'n talu'r ardoll AGB yn gymwys i gael tocyn parcio blynyddol am bris gostyngol.

Addewid 3: *parhad*

Gwell mapiau ac arwyddion mewn meysydd parcio

Bydd yr AGB yn gweithio gyda'n partneriaid i ddatblygu mapiau cyfredol o ansawdd da, i'w gosod mewn meysydd parcio o amgylch y dref fel ffordd o groesawu ymwelwyr i'r dref. Bydd rhifynnau ar-lein a rhifynnau argraffedig yn cael eu cynhyrchu. Yn gysylltiedig â hyn, fel y nodwyd o dan Addewid 2, bydd yr AGB yn gweithio hefyd i wella arwyddion yn y dref gan fod darparu arwyddion cyfredol o ansawdd da yn hanfodol i gael pobl i'r lleoliad ac i'w helpu i ymchwilio i'r hyn sydd ar gael.

Datblygu cynllun 'cwrdd-a-chyfarch' (sy'n gysylltiedig ag Addewid 2)

Mae'r addewid hwn hefyd yn cynnwys rhai o'r themâu a ddisgrifir yn yr ail addewid, gan gynnwys ariannu a rheoli llysgennad canol tref / cynllun cwrdd-a- chyfarch fel rhan o fenter "croeso cynnes". Bydd y Llysgenhadon hyn mewn meysydd parcio yng nghanol y dref ar ddyddiadau ac amserau allweddol (yn cynnwys pan fydd bysiau'n cyrraedd), er mwyn sicrhau bod yr argraff gyntaf gaiff ymwelwyr yn dda a'u bod yn cael gwybod beth sydd gan Gaerfyrddin i'w gynnig. Hefyd bydd yr AGB yn ceisio datblygu a gosod mapiau (yn gysylltiedig â fersiynau ar-lein/ffonau symudol) mewn meysydd parcio yng nghanol y dref.

Addewid 4: Gwella golwg y dref

Buddsoddiad AGB arfaethedig dros 5 mlynedd: o leiaf £40,000

Roedd gwella argraffiadau cyntaf siopwyr, ymwelwyr a thrigolion o Gaerfyrddin yn thema gyffredin a godwyd yn yr ymgynghori â busnesau, yn enwedig mewn perthynas â mynd i'r afael â blaenau siopau / unedau gwag. Gan fod dewisiadau eraill megis McArthurGlen, Abertawe a Chaerdydd yn gyrchfannau poblogaidd i siopwyr, mae angen i Gaerfyrddin gystadlu â threfi a dinasoedd o'r fath er mwyn denu siopwyr ac ymwelwyr o bob cwr o dde Cymru.

Bydd yr AGB yn:

Ariannu gwaith glanhau newydd ac ychwanegol yng nghanol y dref
Bydd yr AGB yn gweithio i wella'r amgylchedd ffisegol, gan helpu i wneud canol y dref yn lle glanach. Byddwn yn sefydlu gwasanaeth 'Tasgmon' a Thîm Glanhau ymateb cyflym a fydd yn canolbwyntio ar fonitro sut y caiff canol y dref ei reoli a'i lanhau. Bydd y gwasanaeth cynnal a chadw hwn yn ein galluogi i ymateb yn gyflym i faterion yn yr AGB (e.e. glanhau, mân atgyweiriadau). Y nod yw sicrhau bod y gwaith o lanhau'r strydoedd yn digwydd hyd at safon dderbyniol, a bod pob parti yn cytuno ar faterion megis ble mae gosod biniau. Bydd yr AGB yn rhoi bod i lanhau strydoedd yn fwy effeithiol na'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd e.e. mwy o lanhau a glanhau'n fwy rheolaidd, yn ogystal â mentrau glanhau dwfn.

Mae'n bwysig nodi y bydd yr AGB yn datblygu Cytundeb Sylfaenol gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i sicrhau bod gweithgareddau'r AGB yn ychwanegol at wasanaethau presennol, nad oes hawl gan weithgareddau'r AGB eu disodli.

Defnyddio siopau gwag / blaenau siopau
Bydd yr AGB yn ceisio gwella blaenau siopau mewn safleoedd gwag, gan gynnwys gosod finyl / graffeg marchnata deniadol ar ffenestri siopau gwag. Byddai hyn yn manteisio ar yr amrywiaeth o safleoedd treftadaeth o'r radd flaenaf yn ardal Caerfyrddin. Bydd y ffenestri hefyd yn cynnwys hysbysiad "gwyliwch y gofod hwn" i roi sicrwydd i bobl a busnesau fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer y safle.

Byddwn hefyd yn edrych ar y potensial o ran sefydlu a chefnogi 'siopau gwib' mewn safleoedd gwag yn yr AGB fel modd o ddefnyddio safleoedd gwag a helpu i ddatblygu busnesau newydd yn yr AGB. Gallai hyn gynnwys cyfnod prawf o tua thri mis, a fyddai'n galluogi busnesau i asesu dichonoldeb defnyddio'r safleoedd hyn yn fwy parhaol. Hyrwyddir cyfleoedd i 'siopau gwib' a'r safleoedd gwag sydd ar gael ar wefan yr AGB.

Ardal yr AGB

Mae'r map isod yn dangos y ffin arfaethedig ar gyfer ardal AGB Caerfyrddin.

Mae'r strydoedd canlynol wedi'u cynnwys yn yr AGB arfaethedig:

Heol y Sgubor
Heol Las
Heol y Bont
Llys Gwalia
Maes Cambria
Ffordd Cambria
Rhiw'r Castell
Heol y Capel
Lôn y Llan
Heol y Llan
Ffordd y Cwrwg
Porth Tywyll
Teras Francis
Parc y Brodyr Llwyd
Heol y Ffwrnais
Clos Mawr
Heol y Neuadd
Lôn Jackson
Heol Ioan
Heol y Brenin
Heol Awst
Heol Fach y Bont
Heol Dŵr Fach
Heol Mansel
Ffordd y Farchnad
Neuadd y Farchnad
Heol Myrddin
Maes Myrddin
Heol y Felin
Heol Morley
Maes Nott
Heol yr Hen Orsaf
Heol y Berllan
Heol y Rhodfa
Heol y Cei
Heol y Frenhines
Heol Goch
Heol Spilman
Heol y Gwyddau
Heol y Santes Fair
Heol San Pedr
Rhodfa'r Santes Catrin
Y Mwnt
Y Cei
Y Farchnad
Heol Dŵr
Rhes Wood



Cyllideb AGB arfaethedig

Bydd AGB Caerfyrddin yn darparu gwerth eithriadol am arian i'w aelodau.

Bydd yr AGB yn cael ei hariannu drwy ardoll ychwanegol, flynyddol o 1.5% o werth ardrethol y busnes, er bod modd ymchwilio i ffynonellau incwm ychwanegol pan fydd yr AGB ar waith.

Bydd yr ardoll yn berthnasol i'r holl dalwyr ardrethi busnes â gwerth ardrethol o dros £6,000. Fodd bynnag, bydd gostyngiad o 80% ar gyfer sefydliadau elusennol anfanwerthol.

Drwy ei hardoll byddai AGB Caerfyrddin yn cynhyrchu incwm o tua £165,000 y flwyddyn, neu £847,000 * dros gyfnod pum mlynedd yr AGB i'w fuddsoddi mewn prosiectau a gwasanaethau er budd busnesau.

*Mae'r cynnig hwn yn cwmpasu cyfnod o 5 mlynedd, sy'n golygu bod angen ystyried chwyddiant; mae cyfradd chwyddiant o 2% y flwyddyn wedi'i chynnwys yn y cyfrifiadau.

Hwn yw'r cyllid lleiaf posibl sy'n debygol o fod ar gael i'r AGB. Byddwn hefyd yn ceisio manteisio ar gyllid ychwanegol o ffynonellau eraill gan gynnwys: sicrhau arian grant a nawdd, cyfraniadau gwirfoddol gan fusnesau y tu allan i'r ffin a landlordiaid. Er eu bod yn cael eu heithrio rhag talu'r ardoll, gall busnesau â gwerth ardrethol is na £6,000 gyfrannu'n wirfoddol er mwyn bod yn aelodau gwirfoddol o'r AGB ac elwa ar y manteision sydd ynghlwm wrth fod yn aelod.

Fel talwr ardoll, bydd yn ofynnol i chi dalu un taliad blynyddol tuag at yr AGB am bum mlynedd. Bydd y taliad blynyddol hwn yn 1.5% o werth ardrethol eich eiddo unigol (hereditament). Felly, os ydych yn berchen busnes sydd â gwerth ardrethol o £10,000 byddwch yn talu £150 y flwyddyn i'r AGB i ddarparu'r gwasanaethau a nodir yn y ddogfen hon. Cofiwch, byddai chwyddiant o 2% y flwyddyn yn berthnasol.

Ardrethi Busnes 2017/18*	Gwerth Ardrethol	Cost ardoll y flwyddyn**	Cost ardoll y diwrnod
£5,140	£10,000	£150	41p
£25,700	£50,000	£750	£2.05
£51,400	£100,000	£1,500	£4.11
£102,800	£200,000	£3,000	£8.22

*** ar gyfer 2018/19 mae'r lluosydd yn £0.514**
**** 1.5% o'r gwerth ardrethol**

Mae'r ardoll yn fuddsoddiad - ar gyfer busnes sydd â gwerth ardrethol o £10,000 mae'n fuddsoddiad o 41c y dydd yn unig. Yn gyfnewid am y buddsoddiad hwnnw, bydd busnesau yn elwa ar y prosiectau na fyddech yn eu cael heb yr AGB. Bydd cwmni'r AGB yn atebol am yr holl arian a dderbynnir neu a gynhyrchir, ac yn gallu dweud wrth fusnesau beth maent yn ei gael am eu buddsoddiad.

Cyllideb ddrafft yw hon. Er hwylustod, mae cyfanswm y gwariant fesul addewid wedi'i ddyrannu'n gydradd ar draws y 5 mlynedd. Gallai'r dyraniadau amrywio o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu ar y cynnydd a blaenoriaethau'r Bwrdd, ond cedwir at y gyllideb a ddyrannwyd dros y 5 mlynedd y bydd y cynllun busnes hwn ar waith.

		Blwyddyn 1 (£)	*Blwyddyn 2 (£)*	*Blwyddyn 3 (£)*	*Blwyddyn 4 (£)*	*Blwyddyn 5 (£)*	*Cyfanswm (£)*
Incwm: Ardoll o 1.5%*		162,803	166,059	169,380	172,768	176,223	847,234
Gwariant	%						
Addewid 1: gwneud busnesau'n fwy proffidiol	25	40,701	41,515	42,345	43,192	44,056	211,808
Addewid 2: gwella proffil y dref	25	40,701	41,515	42,345	43,192	44,056	211,808
Addewid 3: gwella'r profiad parcio	5	8,140	8,303	8,469	8,638	8,811	42,362
Addewid 4: gwella golwg y dref	5	8,140	8,303	8,469	8,638	8,811	42,362
Cymorth i brosiectau eraill	5	8,140	8,303	8,469	8,638	8,811	42,362
Costau rheolwr AGB	20	32,561	33,212	33,876	34,554	35,245	169,447
Costau gweinyddol a gorbenion	5	8,140	8,303	8,469	8,638	8,811	42,362
Trefniadau wrth gefn, drwgddyled, gwarged	10	16,280	16,606	16,938	17,277	17,622	84,723
Cyfanswm y Gwariant	100	162,803	166,059	169,380	172,768	176,223	847,234

* casglu - 95%, isafswm trothwy - £6,000, chwyddiant y flwyddyn - 2%

Cyfradd casglu ardoll a chyllideb wrth gefn arfaethedig

Y cyngor gan Gonsortiwm Adwerthwyr Prydain yw y dylid cyllidebu ar sail cyfradd gasglu o 95% â chyllideb wrth gefn nad yw'n llai na 5% ar bob eitem o wariant. Am y rheswm hwn, mae incwm ardoll yr AGB yn y tabl uchod wedi'i seilio ar gyfradd casglu ardoll o 95%. Mae trefniadau wrth gefn ar gyfer drwgddyled neu warged wedi'u cynnwys ar gyfradd o 10%, yn unol ag argymhelliad Cymdeithas Rheoli Canol y Dref.

Rheoli a Llywodraethu'r AGB

Mae'r gwaith o ddatblygu ein AGB yng Nghaerfyrddin wedi cael ei arwain hyd yn hyn gan grŵp brwdfrydig o fusnesau a chynrychiolwyr lleol. Os pleidleisir o blaid yr AGB, mae'r unigolion hyn wedi cytuno i ofalu am gwmni'r AGB newydd hyd nes y cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf, pryd y caiff Cyfarwyddwyr eu hethol.

Bydd pob busnes â gwerth ardrethol o £6,000 neu'n uwch yn gymwys i fod yn aelodau o'r AGB ac yn gallu sefyll i fod yn gyfarwyddwr. Gall y busnesau hynny sydd o fewn terfynau'r AGB, ond sydd â gwerth ardrethol is wneud cyfraniad gwirfoddol (nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yn hyn ar y swm) bob blwyddyn er mwyn bod yn aelodau. Byddwn yn sefydlu cwmni cyfyngedig drwy warant i redeg yr AGB, er nad oes penderfyniad terfynol wedi'i wneud ynghylch strwythur y cwmni hwnnw hyd yn hyn.

Bydd **cyfarwyddwyr y Bwrdd** yn gwasanaethu'n wirfoddol. Bydd gan bawb sy'n talu ardoll yr AGB hawl i fod yn aelodau o'r cwmni a gallant sefyll i fod yn aelodau etholedig o Fwrdd yr AGB yn ei chyfarfod cyffredinol blynyddol. Gofynnir i bawb sy'n talu'r ardoll wneud cais am gael bod yn aelod o gwmni'r AGB.

Bydd gan bawb sy'n talu'r ardoll **randdaliad yng nghwmni'r AGB**, a gallant ddal cwmni'r AGB i gyfrif. Bydd yr ardoll yn cael ei chasglu gan Gyngor Sir Caerfyrddin ar ran yr AGB.

Bydd **Rheolwr AGB** yn cael ei gyflogi, a hynny'n rhan-amser i ddechrau, er mwyn darparu gweithgareddau'r AGB. Rheolwr yr AGB fydd y pwynt cyswllt allweddol i aelod-fusnesau'r AGB. Bydd gan yr ymgeisydd llwyddiannus gymhelliant cryf a bydd digon o fentergarwch yn perthyn iddo/iddi. Yn ogystal, bydd yn meddu ar sgiliau o ran cysylltiadau cyhoeddus, y cyfryngau cymdeithasol, a rheoli perthnasoedd.

Newidiadau i Drefniadau'r AGB

Dim ond mân newidiadau y gellir eu gwneud i drefniadau'r AGB heb geisio cymeradwyaeth ffurfiol gan aelodau'r AGB. Ni ellir gwneud diwygiadau sy'n newid y canlynol heb bleidlais ddiwygio:

- Ardal ddaearyddol yr AGB
- Ardoll yr AGB yn y fath fodd a fyddai'n:
  - ogolygu bod yn rhaid i rywun dalu'r ardoll, er nad oedd yn rhaid iddo/iddi ei thalu o'r blaen; neu'n
  - ynyddu ardoll yr AGB i unrhyw un ac eithrio at ddibenion chwyddiant, fel y nodwyd yn y ddogfen hon.

Lle bo modd newid trefniadau'r AGB heb bleidlais ddiwygio, caiff y diwygiad ei wneud drwy benderfyniad gan Fwrdd llawn AGB Caerfyrddin.

Mesur Perfformiad

Bydd AGB Caerfyrddin yn dryloyw ac yn atebol i'w haelodau. Bydd Rheolwr yr AGB, ar y cyd â'r bwrdd rheoli, yn datblygu fframwaith monitro a gwerthuso â thargedau blynyddol yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol. Bydd perfformiad yn erbyn y targedau hyn ac effaith rhaglen wella yr AGB yn cael eu monitro'n rheolaidd a bydd adroddiadau ynghylch cynnydd yn cael eu rhoi i dalwyr yr ardoll ac i'r gymuned fusnes ehangach. Bydd ffocws clir ar reoli perfformiad, effeithiau gweledol a'r gallu i ddangos gwerth rhagorol am arian.

Rheolau'r bleidlais

Bydd gan bob talwr ardrethi busnes bleidlais, ar yr amod ei fod ar y Rhestr Ardrethi Annomestig pan fydd Cyngor Sir Caerfyrddin yn cyhoeddi'r hysbysiad ynghylch y bleidlais, a'i fod o fewn terfyn yr AGB â gwerth ardrethol o £6,000 neu fwy.

- Bydd pecyn pleidleisio yn cael ei anfon i gyfeiriad yr hereditament (eiddo).
- Rhaid dychwelyd pob pleidlais erbyn y dyddiad a bennir.
- Er mwyn i'r AGB gael ei gwireddu, mae'n rhaid bodloni dau amod:
  - Rhaid i fwy na 50% o'r busnesau sy'n pleidleisio fod o blaid.
  - Rhaid i gyfanswm gwerthoedd ardrethol y pleidleisiau o blaid gynrychioli mwy na 50% cyfanswm gwerth ardrethol yr holl bleidleisiau a fwriwyd.
- O dan y ddeddfwriaeth, os bodlonir yr amodau hyn, daw'r ardoll o 1.5% yn orfodol i'r holl fusnesau cymwys, ni waeth sut y gwnaethant bleidleisio.
- Ni ellir newid lleoliad yr AGB, canran ardoll yr AGB na'r meini prawf ar gyfer y busnesau sy'n gymwys ar unrhyw adeg yn ystod pum mlynedd yr AGB, heb gael pleidlais ddiwygio lawn. Gwneir hyn er mwyn diogelu trethdalwyr a rhoi sicrwydd o ran costau ardoll yr AGB.

Mae eich pleidlais yn cyfrif!

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae busnesau canol y dref wedi dangos cryn frwdfrydedd ynghylch cael Ardal Gwella Busnes yng Nghaerfyrddin. Nawr yw'r amser i fabwysiadu ymagwedd gynaliadwy a llwyddiannus at reoli canol y dref am flynyddoedd i ddod.

PLEIDLEISIWCH O BLAID - PLEIDLEISIWCH DROS AGB CAERFYRDDIN

CAERFYRDDIN - DYFODOL EICH TREF

Pleidleisiwch

Ie

Atebion i'ch Cwestiynau

Pam ydym yn cynnal pleidlais AGB?
I greu AGB, mae angen inni gynnal pleidlais ar gyfer busnesau cymwys. Bydd y bleidlais yn gofyn cwestiwn syml: 'A ydych o blaid y cynigion ar gyfer Ardal Gwella Busnes Caerfyrddin? (AGB)'.

A wyf i'n gymwys i bleidleisio
Os yw safle eich busnes yn yr AGB arfaethedig ac os yw gwerth ardrethol eich busnes yn fwy na £6,000, rydych yn gymwys i bleidleisio.

Sut bydd AGB Caerfyrddin yn cael ei hariannu?
Os bydd y bleidlais yn llwyddiannus, bydd AGB Caerfyrddin yn cael ei hariannu drwy ardoll flynyddol o 1.5% o werth ardrethol yr holl unedau busnes cymwys sydd wedi'u lleoli yn yr AGB, boed y busnes wedi pleidleisio o blaid neu yn erbyn yr AGB. Er enghraifft, os yw'r gwerth ardrethol ar eich safle yn £10,000, byddwch yn talu £150 y flwyddyn. Bydd ardoll yr AGB yn orfodol i bob busnes cymwys a chyrff eraill, gan gynnwys yr awdurdod lleol. Gallai'r AGB hefyd gael incwm ychwanegol drwy gyfraniadau gwirfoddol gan fusnesau llai o faint a busnesau y tu allan i derfyn yr AGB sy'n dymuno bod yn aelodau, yn ogystal â thrwy unrhyw geisiadau grant llwyddiannus.

Casglu'r Ardoll
Bydd ardoll yr AGB yn cael ei chasglu'n flynyddol a hynny gan Gyngor Sir Caerfyrddin, gyda'r ardrethi busnes. Bydd AGB Caerfyrddin yn glir ac yn dryloyw ynghylch sut y mae'n gwario'r arian. Bydd gwybodaeth am incwm a gwariant, a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd, ar gael i holl aelodau'r AGB.

Sicrhau bod unrhyw wasanaethau AGB yn ychwanegol
Menter dan arweiniad busnesau fydd yr AGB yng nghanol tref Caerfyrddin, a chaiff y cyllid ei gasglu a'i reoli gennych chi. Mae'n rhaid i'r AGB ddarparu gwasanaethau sy'n ychwanegol at y rhai a gynigir gan yr awdurdod lleol ac asiantaethau statudol eraill. Bydd AGB Caerfyrddin yn llofnodi Cytundeb Sylfaenol gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, a fydd yn nodi'r hyn mae'r awdurdod lleol yn ei ddarparu eisoes, a bydd y cytundeb hwn yn cael ei fonitro.

Am faint fydd yr AGB yn para?
Bydd yr AGB yn para am bum mlynedd, sy'n golygu sicrwydd o ran buddsoddiad yn ystod y cyfnod hwnnw. Os bydd busnesau am i'r AGB barhau'r tu hwnt i'r pum mlynedd, byddwch yn penderfynu ar hyn drwy bleidlais arall.

Sut gallaf i gael fy nghynrychioli?
Gall yr holl fusnesau sy'n talu'r ardoll fod yn aelodau o'r cwmni er mwyn bod yn gymwys i bleidleisio. Gall unrhyw aelod sefyll i gael ei ethol i'r bwrdd. Gall safleoedd busnes sydd â gwerth ardrethol is na £6,000 gyfrannu'n wirfoddol ar sail £X / y flwyddyn man lleiaf, er mwyn cael eu cynnwys fel aelodau gwirfoddol o'r AGB. Fodd bynnag, dim ond aelodau sy'n dalwyr ardoll gorfodol fydd â hawliau pleidleisio llawn.

Pa ymchwil sydd wedi'i gwneud tra bo'r cynigion yn cael eu datblygu?
Lluniwyd astudiaeth ddichonoldeb ym mis Mai 2017 i weld a fyddai AGB yn ddull effeithiol o fynd i'r afael â'r problemau presennol yng nghanol y dref, gan ganolbwyntio ar wella amodau masnachu.

Ar sail dadansoddi gwerthoedd ardrethol ac arolwg o fusnesau o fewn terfynau arfaethedig yr AGB, daeth yr astudiaeth ddichonoldeb i'r casgliad bod AGB lwyddiannus nid yn unig yn gyfle cyffrous a hynod fuddiol i fusnesau a chymuned ehangach Caerfyrddin, ond ei bod hefyd yn gam ymarferol realistig. Mae cefnogaeth i'r AGB a galw amdani, bydd yn ddichonadwy'n ariannol, gall fwrw ati i ddiwallu anghenion penodol busnesau'r AGB yn y tymor hir a gall ychwanegu gwerth at yr ardoll ar fusnesau drwy integreiddio, partneriaethau, a dylanwad.

Cwblhawyd arolygon gan 190 o fusnesau, ac o'u plith dywedodd 150 (79%) eu bod yn meddwl fod AGB ar gyfer Caerfyrddin yn syniad da mewn egwyddor, a dylid cael pleidlais yn ei gylch. Dim ond deuddeg ddywedodd nad oeddent am weld AGB ac nid oedd y gweddill yn siŵr.

Dogfennau Atodol

Bydd dogfennau eraill sy'n gysylltiedig â'r AGB ar gael ar wefan yr AGB wedi iddynt gael eu cwblhau.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Y Cytundeb Sylfaenol drafft rhwng yr AGB a Chyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnwys datganiad o'r gwasanaethau sylfaenol presennol a ddarperir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

- Y Cytundeb Gweithredu drafft rhwng yr AGB a Chyngor Sir Caerfyrddin, sy'n nodi'r telerau fydd ar waith gan Gyngor Sir Caerfyrddin wrth weithredu fel yr awdurdod bilio a phleidleisio ar ran yr AGB.

I gael mwy o wybodaeth am AGB Caerfyrddin, ac i weld sut y gallwch gymryd rhan, ewch i'r wefan neu anfonwch e-bost atom:

Ewch i'n gwefan: https://www.facebook.com/lovecarmarthen

Atodiad 1: Gwybodaeth Hanfodol

Pwy sy'n rhan o'r AGB?

1. Y person sy'n gyfrifol am dalu ardoll yr AGB yw'r un sy'n gyfrifol am dalu ardrethi annomestig mewn perthynas â'r hereditament.
2. Bydd ardoll yr AGB yn berthnasol i bob hereditament sydd â chyfeiriad Ardrethi Annomestig Cenedlaethol ac sydd o fewn terfynau AGB Caerfyrddin.
3. Ni fydd busnesau sydd â gwerth ardrethol is na £6,000 yn gymwys i dalu ardoll yr AGB, ond gallant gyfrannu'n wirfoddol er mwyn bod yn aelodau gwirfoddol o'r AGB.

Dyddiadau Allweddol

1. Bydd yr AGB arfaethedig yn para pum mlynedd ariannol olynol.
2. Bydd gan yr holl fusnesau cymwys hawl i bleidleisio ar gyfer cynnig yr AGB drwy bleidlais drwy'r post, a fydd yn para 28 diwrnod.

Yr Ardoll

1. Bydd ardoll yr AGB yn 1.5% o werth ardrethol pob hereditament am y pum mlynedd lawn, gyda chynnydd bach bob blwyddyn i gyfrif am chwyddiant.
2. Ni wahaniaethir rhwng hereditamentau sydd wedi'u meddiannu a rhai sydd yn wag.
3. Ni fydd y cynllun gostyngiad treth i fusnesau bach yn effeithio ar ardoll yr AGB.
4. Bydd yr awdurdod lleol yn casglu'r ardoll ac yn dal yr arian a gesglir yng Nghyfrif Refeniw'r AGB.
5. Cyfrifir yr ardoll ar gyfer pob hereditament yn flynyddol a'i bilio erbyn dechrau bob blwyddyn yr AGB.
6. Codir yr ardoll yn unol â gweithdrefnau dydd trethadwy. Bydd yn seiliedig ar y rhestr ardrethi ar gyfer pob hereditament yn yr AGB ar y dyddiad pan gyhoeddir hysbysiad ynghylch y bleidlais. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhestr gwerth ardrethol a ddefnyddir ar gyfer creu biliau bob blwyddyn yn gyflawn ac yn gywir.
7. Bydd y Cytundeb Gweithredu ar gael ar gais gan ddarpar dalwr ardoll.
8. Mae'n bosibl y bydd busnesau'n gorfod talu'r ardoll er nad oedd yn rhaid iddynt wneud hynny o'r blaen, er enghraifft, lle caiff hereditament yn yr AGB a oedd yn absennol o'r rhestr i gychwyn ei ychwanegu ar ôl hynny.
9. Codir tâl am y cyfnod o bum mlynedd y bydd yr AGB ar waith. Ni roddir ystyriaeth i unrhyw ailbrisio o ran ardrethi, oni bai bod hereditament ar y rhestr honno am y tro cyntaf, ac os felly caiff y gwerth ardrethol a ddangosir ar y rhestr honno ei ddefnyddio. Yr eithriad fydd unrhyw newid mewn defnydd neu unrhyw newid ffisegol i eiddo neu hereditament.
10. Os na chaiff yr AGB ei thalu, defnyddir pob dull posibl i fynd ar drywydd y taliad.